

Os yw'n addas fan hyn, gallwch ddweud wrth bobl y gallant brynu'r bowlenni a chreffftwaith arall a wneir gan y prosiect - ceir mwy o fanylion gan Tŷ John Penri.

Eglurwch fod ein holl eglwysi Annibynnol wedi cael gwahoddiad i brynu bowlen i fod yn symbol ac yn ganolbwynt eu rhoi. Gellir eu pasio o gwmpas er mwyn i ni roi ein rhoddion ynddynt, neu gellir eu pasio o gwmpas er mwyn rhannu rhywbeth ymhlith y gynulleidfa. Gofynnir i bob eglwys feddwl am ffyrdd creadigol i'w defnyddio ac anfon eu syniadau atom i'w rhannu gydag eglwysi eraill.

GWEDDI BENDITHIO

Arglwydd
Bendithia'r fowlen hon
Bendithia'r dwylo a'i gwnaeth, a'i ffurfiodd ac a'i lluniodd.
Bendithia'r dwylo sy'n ei dal ac sy'n gwahodd gweddi a rhoddi.
Bendithia'r dwylo a fydd yn ei chyffwrdd wrth iddynt gyfrannu a'i phasio i'w cymydog.
Arglwydd, bendithia'r fowlen hon.
Amen

Gellir wedyn ddefnyddio'r fowlen i dderbyn Y CASGLIAD a/neu gellir ei defnyddio i ddal bara'r cymunedeb.

Y CYMUN

ARWEINYDD: Grist atgyfodedig, dangosaist dy hun i'r disgyblion ar doriad y bara yn Emaus.
Y mae'r bara a dorrwn heddiw gyda'n gilydd yn arwydd o'n byd toredig.
Trwy inni rannu bara'r bywyd yn ein cymunedau Cristnogol niferus, agor di ein llygaid a'n dwylo i anghenion pobl.
Bydded i'n calonnau ysu i rannu dy roddion;
helpa ni i fynd allan gyda'n gilydd gan ddwyn bara: bara gobaith, bara bywyd a bara heddwch.

RHANNU'R BARA

'Dywedwch ...bwyd cyfeillach'
(neu gobaith/bywyd/neu heddwch)

RHANNU'R GWIN

'Dywedwch ...diod cyfeillach'
(neu gobaith/bywyd neu heddwch)

DIOLCH:

Pawb: Rhoddwn ddiolch fod pobl, trwy dy ysbryd Di,
wedi byw'n ddewr,
wedi ceisio dy ryddid,
wedi'u tanio gan dy weledigaeth.

Diolchwn am i ti ein gwneud ar dy ddelw dy hun,
ac am iti ddod i fyw yn ein plith er mwyn i ni, hefyd, fyw yn dy oleuni di.

EMYN NEU GÂN

YMRWYMIAD

PAWB: Dduw cariadlon,
tywys ni ar hyd ffyrdd nad ydym yn eu dirnad eto.
Cymhwysa ni ar gyfer gwasanaethu, cymodi a dwyn rhyddid gwirioneddol i dy fyd.
Bydded heddwch ble bynnag y bydd pobl yn byw,
yr heddwch na fedrwn ei greu ein hunain, grym yr Arglwydd Iesu Grist yma yn ein plith.

ARWEINYDD: Awn allan i'r byd
PAWB: yn dy enw di.

DIWEDDGLO:

PAWB: O Dduw, bendithia Affrica.
Gwarchod ei phlant.
Tywys ei harweinwyr
A dyro iddi heddwch.
Er mwyn Iesu Grist,
AMEN

NEU:

PAWB: Nkulunkulu busisa iAfrika.
Londoloza abantwana bayo.
Hola abaholi bayo
Uyiphe ukuthula ngenxa
Ka Jesu Christu
AMEN

EMYN NEU GÂN (cyn neu wedi'r Fendith, yn ôl arfer eich eglwys chi)

ARWEINYDD: Wele, y mae preswylfa Duw gyda'r ddynoliaeth;
bydd ef yn preswyllo gyda hwy,
byddant hwy yn bobloedd iddo ef,
a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt.
Fe sych bob deigrin o'u llygaid hwy,
ac ni fydd marwolaeth mwyach,
na galar, na llefain na phoen.
Y mae'r pethau cyntaf wedi mynd heibio.
Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd!

PAWB: AMEN

(Gwasanaeth a seiliwyd ar PACSA Agape – 'Nkulunkulu Busisa iAfrika...'; Pietermaritzburg Agency for Social Awareness, PO Box 2338, Pietermaritzburg, 3200, De Africa/South Africa. Addaswyd y litwrgi o: Gwasanaeth HIV/AIDS, College of Transformation: 'Being Lifted Up', Grahamstown; Jan Berry, Sheffield, 1990; Janet Morley 1992 'All Desires Known', SPCK London; 'Ekuphelelisweni/Moving to Wholeness' 2002: Litwrgi agoriadol: Cynhadledd Gwragedd Esgobaeth Natal, Pietermaritzburg; 'Agape Service Group', Mehefin 1995 PACSA, Pietermaritzburg)

Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2008/9

Gwasanaeth agoriadol Ymrwymiad

Apêl De Affrica



Paratoi'r gwasanaeth

Nid ydym wedi cynnig emynau na chaneuon er mwyn i chi ddewis y rhai mwyaf addas ar gyfer eich eglwys chi. Yr ydym wedi cynnig nodiadau ar gyfer pregeth y gall eich siaradwr neu eich gweinidog ehangu arnynt.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, efallai yr hoffech ddilyn y cyfarwyddiadau canlynol cyn y gwasanaeth fel y gallwch sôn amdanynt wrth bawb yn ystod y gwasanaeth:

- Apwyntiwch hyrwyddwr/wraig apêl
- Archebwch fowlen Wola Nani
- Trefnwch gynllun rhoddi misol
- Gofynnwch i un o'r bobl a aeth ar y daith i ddod i siarad yn eich eglwys
- Nodwch y Suliau pan fyddwch yn sôn am yr apêl yn ystod y flwyddyn i ddod

Os hoffech wneud mwy na hyn ar unwaith, pam na wnewch chi drefnu pryd bydd yn dilyn y gwasanaeth a siarad am y pethau yr hoffech eu gwneud i gefnogi'r apêl eleni? Gallech hefyd edrych dros yr adnoddau sydd i'w defnyddio o hyn tan y Nadolig (bydd adnoddau ychwanegol i ddilyn) a gofyn i grŵp bychan gymryd cyfrifoldeb am bob un.

Amlinelliad o wasanaeth (yn cynnwys y Cymun) – seiliedig ar wasanaeth a ysgrifennwyd gan ein partner apêl Pietermaritzburg Agency for Christian Social Awareness (PACSA) yn Ne Affrica.

GALWAD I ADDOLI:

PAWB: Wrth inni ymgynnull yma heddiw, cyflwynwn ein hunain unwaith eto i Ti, O Dduw. Ymrwymwn bob un i'n gilydd, a gweddiwn y cawn ein creu o'r newydd i gydrannu yng ngwaith achubol Crist Iesu.

EMYN AGORIADOL NEU GÂN

GEIRIAU AGORIADOL:

PAWB: Dduw bywyd,
Dduw'r aml enwau
Creawdwr, Mam, Tad,
Duw ein Harglwydd Iesu Grist,
Rabi'r tlawd,
derbyn ein mawl a'n haddoliad.
Dy anadl di sy'n rhoi inni fywyd a bodolaeth,
dy gariad di sy'n dymchwel y muriau sy'n ein gwahanu
ac yr wyt yn cerdded gyda ni tuag at ryddid.

Dduw'r dwylo drylliedig,
Saer y greadigaeth newydd,
allan o frwydro, dryswch ac anobaith
cyhoeddwn mai dy fywyd di
sy'n rhoi gobaith i'n byd.
Ffynhonnell llawenydd,
dathlwn dy deyrnasiad,
oherwydd yr wyt yn tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau,
yn dyrchafu'r rhai distadl
ac yn llwytho'r newynog â rhoddion.

EMYN NEU GÂN

Y GAIR: Mathew 25: 31-46 (neu ddarlleniad o ddewis eich eglwys chi)

[CYFNOD BYR O FYFYRDOD, os yn addas i addoliad yn eich eglwys chi]

NODIADAU PREGETH

- Mae'r darlleniad yn ein hatgoffa ei bod yn rhan o'n galwad Cristnogol i helpu'r rhai mewn angen. Dyma a ysbrydolodd yr eglwys i gychwyn Cymorth Cristnogol 60 mlynedd yn ôl, a dyma sy'n symblu llawer o'r mudiadau partner Cristnogol yr ydym yn cydweithio gyda nhw yn awr.
- Yn sicr mae yna angen mawr yn Ne Affrica – defnyddiwch y wybodaeth o'r daflen cefndir yn y pecyn i ddweud mwy wrth yr eglwys am y sefyllfa yno.
- Yn ogystal â geiriau lesu, y mae gennym ei esiampl – yn ogystal â phregethu'r Newydd Da am y Deyrnas, fe iachodd bobl, fe'u bwydodd ac fe heriodd y drefn oedd ohoni.
- Mae aralleiriad Saesneg cyfoes o'r Beibl, 'The Message', yn cyfleu hyn yn wych. O'i gyfieithu - 'Pryd bynnag y gwnaethoch chi un o'r pethau hyn i rywun a anwybyddwyd neu a esgeuluswyd, fi oedd hwnnw – fe'i gwnaethoch i mi.'
- Gallech ddefnyddio stori am y bobl ar y poster apêl yn y gwasanaeth yma:

Gogo Mbhense (73), Tsieti a Nompilo (16), Edmund (12), Bheki (8), a Maria (7) – mae'r poster apêl yn dangos Gogo ar y chwith, Maria yn y canol a Bheki ar y dde.

Mae Gogo (Mamgu) Mbhense wedi bod yn gofalu am ei hwyrion amddifad ers 2002. Mae'r teulu cyfan, sy'n byw ger Pietermaritzburg, yn byw ar ei phensiwn hi. Cânt eu helpu nawr gan Thandanani, un o'r mudiadau yr ydym yn eu cefnogi trwy'r apêl. Byddwn yn dysgu mwy am Thandanani ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf.

Pan ddaeth Thandanani ar eu traws, yr oedd eu tŷ yn dadfeilio. Doedd dim drws na ffenestri, roedd hanner y to wedi mynd a'r wal gefn yn syrthio i lawr. Ail-adeiladodd staff Thandanani y tŷ ac ers hynny maen nhw wedi bod yn helpu'r teulu gyda pharseli misol o fwyd, gwisg ysgol i'r plant, dillad a dillad gwely. Maent hefyd wedi gallu trefnu i'r plant gael eu hesgusodi rhag talu'r ffioedd ysgol.

'Pan fyddai'n bwrw glaw, byddai'r glaw yn arllwys i mewn i'r tŷ,' meddai Gogo Mbhense. 'Doedd dim byd i'w rwystro. Y peth mwyaf a wnaethon nhw oedd helpu i drwsio'r tŷ achos roeddem ni'n byw fel anifeiliaid; roedd fel byw allan yn yr awyr agored.'

'Y peth anoddaf yw y baswn i wrth fy modd yn gwneud y tŷ yma'n gartre iawn,' meddai. ' Mae Thandanani wedi helpu ond fe hoffwn i wneud fy nhŷ hyd yn oed yn well. Baswn i'n hoffi i bob plentyn gael peth preifatrwydd a gwely'r un. Ar hyn o bryd maen nhw'n rhannu gwely ac yn cysgu ar y llawr. Pan fydda'i

yn marw dwi am wybod bod y plant yn ddiogel a bod ganddyn nhw gartre iawn.'

Yn y dyfodol, meddai 'Dwi'n gobeithio y gall pob un o'm hwyrion orffen ysgol a chario mlaen i barchu fi fel maen nhw'n ei wneud nawr, ac mae angen addysg arnoch chi i wneud hynna. Heb addysg, rych chi'n ddim'

'Dwi'n teimlo'n hapus jyst i fod yma gyda'm hwyrion, yn gwybod bod yna bobl sy'n meddwl amdanom ni' meddai. Ei neges i ni yw hon: 'Gweddiwch fod rhieni'r plant yn gorffwys mewn hedd ac yn gwyllo dros eu plant o'r nefoedd i'w tywys a'u diogelu.'

CYFFES:

ARWEINYDD: Os cyffeswn ni ein pechodau mae Duw yn gyfiawn a gallwn fod yn sicr y bydd yn maddau i ni ac yn ein glanhau o bob math o ddrwg.

PAWB : Am ein methiant i deimlo dioddefaint eraill a'n tueddiad i fyw'n gyfforddus gydag anghyfiawnder, O Dduw, maddau i ni.

Am fod yn hunangyfiawn a gwrthod teimlo euogrwydd, am fod yn hunanol a thagu ein tosturi, O Dduw, maddau i ni.

Am yr adegau hynny pan geisiwn yn rhy eiddgar i fod yn well nag eraill, pan fyddwn ar ormod ar frys i ofalu am eraill, yn rhy flinedig i ymboeni, pan na fyddwn yn wirioneddol yn gwrando, pan fyddwn yn rhy barod i weithredu oherwydd cymhellion heblaw cariad, O Dduw, maddau i ni.

Am ein methiannau yn y gymuned Ein methiant i ddeall, i faddau a thosturio, Gofynnwn am dy drugaredd.

Am inni dra-arglwyddiaethu ar y ddaear A cham-ddefnyddio dy greadigaeth, O Dduw, maddau i ni.

GWEDDIAU O EIRIOLAETH:

Wedi'r gweddïau gosod isod, gellir cynnig gweddïau o'r frest [os yn addas yn eich eglwys chi] gan orffen gyda'r geiriau:

Pawb: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw

ARWEINYDD: Dros yr eglwys a phawb sy'n credu y dylid gwneud dy ewylllys

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

ARWEINYDD: Dros y rhai sydd mewn safle
arweinwyr,
ac er mwyn iddynt lywodraethu'n
gyfiawn

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

ARWEINYDD: Dros yr holl rai sy'n dioddef oherwydd
canlyniadau apartheid

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw

ARWEINYDD: Dros bawb sydd wedi eu dal ynghanol
trais ac ymladd yn Ne Affrica, a thros
ein byd ni heddiw...

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

ARWEINYDD: Dros bawb sy'n gweithio dros
heddwch yn ein gwlad ni a thros y
byd, drosom ni fel ein bod ninnau yn
dangnefeddwyr mewn meddwl, gair a
gweithred

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

ARWEINYDD: Dros garcharorion, yn enwedig y rhai
sy'n wynebu'r gosb eithaf, a thros eu
teuluoedd a'u ffrindiau

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

ARWEINYDD: Dros y tlawd a'r di-waith, ffoaduriaid,
y digartref ac yn enwedig eu plant,

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw

ARWEINYDD: Dros y claf, yr hen a'r unig, a thros
y rhai sy'n galaru neu sydd mewn
trallod,

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw

ARWEINYDD: Dros gyflawnder ac iachâd ynom ein
hunain, yn ein cymdeithas ac ar y
ddaeear,

PAWB: Cyflwynwn ein gweddi i Ti, O Dduw.

Parhau... (gweddiâu o'r frest)

GWEDDI'R ARGLWYDD

Defnyddiwch y fersiwn fodern isod neu'r fersiwn
draddodiadol (yn y Gymraeg neu Zwlw – gweler y
fersiwn Zwlw isod):

PAWB: Ysbryd Tragwyddol, rhoddwr bywyd,
cyfranogwr poen, crëwr cariad,
Ffynhonnell pob peth sydd ac a fydd,
Ein Tad a'n Mam ni oll,
Dduw cariadlon, ynot ti y mae'r
nefoedd:
Sancteiddier dy enw ar draws y
bydysawd.
Boed i bobloedd y byd ddilyn ffordd
dy gyfiawnder.
Boed i bob peth a grëwyd gwneud dy
ewyllys.
Boed i'th deyrnas di o heddwch a
rhyddid gynnal ein gobaith

a chael ei gwireddu ar y ddaear.

Gyda'r bara sydd ei angen am heddiw,
bwyda ni.

Am y boen a roddwn i eraill, maddau i
ni.

Ar adegau o demtasiwn a phrawf,
cryfha ni.

O dreialon rhy fawr i'w dioddef, arbed
ni.

O afael popeth sydd ddrwg, rhyddha
ni.

Oherwydd yr wyt yn llywodraethu yng
ngogoniant y nerth sydd yn gariad yn
awr a hyd byth. AMEN

Gweddi'r Arglwydd yn ZWLW

PAWB: Baba Wethu osezulwini,
malingcweliswe igama lakho;
mawufike umbuso wakho;
mayenziwe intando yakho emhlabeni
njengasezulwini;
usiphe namuhla isinkwa sethu semihla
ngemihla;
usithethelele amacula ethu,
ngenjalokhu nathi sibathethelela
abanecala kithi;
ungasingenisi ekulingweni,
kodwa usikhulule kokubi;
ngokuba umbuso ungowakho,
namandla, nenkazimulo,
kuze kubephakade.
Amen

Dysgwch GÂN YR APÊL yma

(ceir y geiriau a'r gerddoriaeth yn eich pecyn)

YR HEDDWCH:

ARWEINYDD: Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn
newydd:
carwch eich gilydd.
Fel y cerais i chwi, felly yr ydych
chwithau i garu eich gilydd.
Os bydd gennyh gariad tuag at eich
gilydd, wrth hynny bydd pawb yn
gwybod mai disgyblion i mi ydych.'
(Ioan 13:34-35)

RHANNU'R HEDDWCH

Sôn am FOWLEN YR APÊL.

*Eglurwch o ble daw'r fowlen - fe'i gwneir o 'papier
mâché' trwy ddefnyddio labeli bwyd nad oes eu
hangen mwyach gan ffatrioedd yn ne Affrica - ailgylchu
rhywbeth a fyddai'n cael ei daflu i ffwrdd fel arall.
Gwneir y bowlenni hyn gan wragedd trwy brosiect yn
Ne Affrica sy'n rhoi urddas ac incwm i bobl sydd â HIV
ac AIDS, ac sydd yn aml yn colli eu swyddi pan fydd
eraill yn dod i wybod am eu statws, pobl nad oes neb
am eu cyflogi. Gwerthir y bowlenni yma yn awr yn Ne
Affrica a thros y byd.*